

## **Anaf aciwt i'r arenau: atal, canfod a rheoli**

18 Rhagfyr 2019

### ***Anaf aciwt i'r arenau: y gofal y dylech ei ddisgwyl***

Mae anaf aciwt i'r arenau yn golygu bod yr arenau wedi stopio gweithio'n gywir yn sydyn (arferai hyn gael ei alw'n fethiant arenol aciwt). Gall anaf aciwt i'r arenau effeithio ar unrhyw un, ond mae'n fwy cyffredin ymhlith pobl hŷn a phobl sydd eisoes yn sâl â chyflyrau meddygol eraill. Gall nifer o bethau ei achosi, fel dadhydradu, haint difrifol, rhwystr yn y llwybr wrinol, neu gymryd meddyginiaethau penodol a all niweidio'r arenau. Gall hefyd ddigwydd yn ystod rhai sganiau neu belydrau-X sy'n defnyddio lliw, er enghraifft i ddangos llif y gwaed yn y galon neu'r pibellau gwaed. Mae'r arenau yn atal sylweddau niweidiol rhag cronni yn y corff, felly gall anaf aciwt i'r arenau beryglu bywyd os na chaiff ei drin yn gyflym.

Rydym am i'r canllaw hwn wneud gwahaniaeth i oedolion, plant a phobl ifanc sydd ag anaf aciwt i'r arenau, neu sy'n wynebu risg o'i gael, drwy sicrhau'r canlynol:

- y caiff symptomau anaf aciwt i'r arenau eu nodi a'u trin yn gynharach
- y caiff yr hyn sy'n achosi anaf aciwt i'r arenau ei ddiagnosio yn gyflym ac yn gywir fel bod pobl yn cael y gofal cywir
- y caiff pobl sy'n wynebu risg o anaf aciwt i'r arenau eu monitro'n agos ar gyfer problemau sy'n gysylltiedig â'r arenau, yn enwedig os ydynt yn yr ysbyty neu'n cael sgan neu belydr-X â lliw a allai effeithio ar eu harenau
- y gall pobl weld arbenigwr yn ddi-oed pan fo angen
- y caiff pobl sydd ag anaf aciwt i'r arenau gyngor ar sut i'w atal rhag digwydd eto.

### ***Gwneud penderfyniadau gyda'ch gilydd***

Caiff y penderfyniadau gorau ynglŷn â thriniaeth a gofal eu gwneud ar y cyd. Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwranddo'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon.

Dylent hefyd wneud y canlynol:

- trafod yr opsiynau gwahanol ar gyfer trin anaf aciwt i'r arenau gyda chi

- rhoi'r wybodaeth a'r cymorth lawn sydd eu hangen arnoch i wneud penderfyniadau am eich gofal os oes angen dialysis arnoch (lle y defnyddir peiriant i gael gwared ar gynhyrchion gwastraff o'r gwaed) tra bod eich arennau yn gwella
- egluro'r hyn y gallwch ei wneud eich hun i'ch helpu i wella, a beth i'w ddisgwyl yn y dyfodol.

Os na allwch ddeall y wybodaeth a roddir i chi, dywedwch hynny wrth eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

### ***Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?***

Ceir rhagor o wybodaeth am anaf aciwt i'r arennau ar [wefan y GIG](#).

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o gyngor a chefnogaeth i chi.

- [Kidney Care UK](#), 01420 541424
- [Ymchwil Arennau y DU](#), 0300 303 1100
- [Aren Cymru](#), 029 20 343 940
- [Ffederasiwn Arennau Cenedlaethol](#), 0800 169 09 36

Nid yw NICE yn gyfrifol am gynnwys y gwefannau hyn.

I rannu profiad o ofal rydych wedi'i gael, cysylltwch â'ch grŵp [Gwarchod Iechyd Lleol](#).

Lluniwyd y canllaw hwn ar y cyd â phobl y mae anaf aciwt i'r arennau wedi effeithio arnynt a staff sy'n eu trin a'u cefnogi. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

ISBN: 978-1-4731-3624-3